# PWYLLGOR PENSIYNAU, 15.09.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Peredur Jenkins, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd) John P. Roberts a Glyn Thomas

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Seimon Glyn a H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn),

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9fed o Fehefin 2016 fel rhai cywir.

## 5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015 – 2016

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa Bensiwn ar y cyd gydag arian y Cyngor yn 2015/16. Roedd yr adroddiad yn cyflawni gofynion Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(b) Amlinellwyd mai diogelwch y buddsoddiad oedd prif amcan buddsoddi yr Awdurdod ac fe eglurwyd sut roedd yr arian wedi cael ei fuddsoddi er mwyn uchafu'r budd. Nodwyd bod cyfuno'r cronfeydd yn ceisio gwell dychweliadau.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad

**DERBYNIWYD ADRODDIAD Y RHEOLWR BUDDSODDI ER GWYBODAETH**

## 6. FFIOEDD FIDELITY

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn argymell y Pwyllgor i dderbyn cynnig gan Fidelity o raddfeydd ffioedd newydd er mwyn ceisio cwtogi costau. Gyda'r gronfa wedi sicrhau arbedion sylweddol o'r gostyngiad yn ffioedd Blackrock yn sgil pwlio buddsoddiadau ecwiti goddefol y cronfeydd Cymreig, roedd cyfle i adolygu ffioedd Fidelity. Nodwyd bod y risgiau wedi eu hystyried a bod cyngor wedi ei dderbyn gan Hymans (a oedd wedi ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor), yn

argymell symud i raddfa ffioedd newydd. Ategwyd mai pwlio cronfeydd oedd wedi arwain at y cynnig a oedd yn debygol o fod yn fanteisiol i'r Gronfa.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad

**PENDERFYNWYD DERBYN CYNNIG FIDELITY O RADDFEYDD FFIOEDD NEWYDD YN DDI-OED**

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben 1:20pm